# Cynllun Cyhoeddi

| | |
|---|---|
| Awdur | Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfio |
| Fersiwn | 1.0 |
| Dyddiad cychwyn | 11 Mehefin 2026 |
| Cyfrifoldeb dros fonitro | Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfio |

| Fersiwn | Dyddiad | Disgrifiad | Addaswyd/Adolygwyd gan |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 11.06.26 | Cynllun Cyhoeddi wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfio |
| | | | |
| | | | |

# Cynllun Cyhoeddi

## Y Cynllun Cyhoeddi

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn mabwysiadu'r cynllun cyhoeddi model a baratowyd a chymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r cynllun cyhoeddi yn rhwymo'r Coleg i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r wybodaeth a gwmpesir wedi'i chynnwys yn y dosbarthiadau gwybodaeth a grybwyllir isod, lle mae'r wybodaeth hon yn cael ei dal gan yr awdurdod. Darperir cymorth ychwanegol i ddiffiniad y dosbarthiadau hyn yn y canllawiau ar gyfer colegau addysg bellach a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae’r cynllun yn rhwymo’r Coleg:

- I gyhoeddi neu wneud ar gael yn rhagweithiol fel mater o arfer, wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gedwir gan yr awdurdod ac sy'n dod o fewn y dosbarthiadau isod.
- I nodi'r wybodaeth a gedwir gan yr awdurdod ac sy'n dod o fewn y dosbarthiadau isod.
- I gyhoeddi neu wneud ar gael yn rhagweithiol fel mater o arfer, gwybodaeth yn unol â'r datganiadau a gynhwysir yn y cynllun hwn.
- I gynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau y mae'r wybodaeth benodol yn cael ei gwneud ar gael yn rheolaidd fel y gall aelodau'r cyhoedd ei hadnabod a'i chael yn hawdd.
- I adolygu a diweddaru'n rheolaidd y wybodaeth y mae'r awdurdod yn ei darparu o dan y cynllun hwn.
- I gynhyrchu rhestr o unrhyw ffioedd a godir am fynediad at wybodaeth a ddarperir yn rhagweithiol.
- I wneud y cynllun cyhoeddi hwn ar gael i'r cyhoedd.
- I gyhoeddi unrhyw set ddata a gedwir gan yr awdurdod y gofynnwyd amdani, ac unrhyw fersiynau wedi'u diweddaru sydd ganddo, oni bai bod yr awdurdod yn fodlon nad yw'n briodol gwneud hynny; cyhoeddi'r set ddata, lle bo'n rhesymol ymarferol, ar ffurf electronig y gellir ei hailddefnyddio; ac, os yw unrhyw wybodaeth yn y set ddata yn waith hawlfraint perthnasol a'r awdurdod cyhoeddus yw'r unig berchennog, gwneud y wybodaeth ar gael i'w hailddefnyddio o dan delerau Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015, os ydynt yn berthnasol, ac fel arall o dan delerau adran 19 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Diffinnir y term 'set ddata' yn adran 11(5) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Diffinnir y term 'gwaith hawlfraint perthnasol' yn adran 19(8) o'r Ddeddf honno.

## Dosbarthiadau gwybodaeth

**Pwy ydyn ni a’r hyn rydym yn ei wneud**
Gwybodaeth am y sefydliad, lleoliadau a chytundebau, llywodraethiant cyfreithiol a chyfansoddol.

**Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario**
Gwybodaeth ariannol sy’n ymwneud ag incwm a rhagwelir ac incwm gwirioneddol a gwariant, tendro, pwrcasu a chontractau.

**Beth yw’n blaenoriaethau a sut rydym yn dod ymlaen**
Gwybodaeth am strategaeth a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygiadau ac adolygiadau.

**Sut rydym yn gwneud penderfyniadau**
Cynigion polisi a phenderfyniadau. Prosesau gwneud penderfyniadau, meini prawf a phrosesau mewnol, ac ymgynghoriadau.

**Ein polisïau a gweithdrefnau**
Protocolau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer darparu'n gweithredoedd a chyfrifoldebau.

**Rhestrau a chofrestrau**
Gwybodaeth ofynnol yn ôl y gyfraith a gaiff ei ddal mewn cofrestrau a rhestri a chofrestrau eraill sy'n ymwneud a gweithredodd y sefydliad.

**Y gwasanaethau rydym yn eu cynnig**
Cyngor ac arweiniad, llyfrynnau a thaflenni, trafodion a datganiadau i'r cyfryngau. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.

Ni fydd y dosbarthiadau gwybodaeth fel rheol yn cynnwys:

- Gwybodaeth y mae ei datgelu wedi'i hatal gan y gyfraith, neu wedi'i heithrio o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu a ystyrir yn briodol fel arall ei bod wedi'i diogelu rhag ei datgelu.
- Gwybodaeth ar ffurf ddrafft.
- Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn rhwydd gan ei bod wedi'i chynnwys mewn ffeiliau sydd wedi'u rhoi mewn storfa archif, neu sy'n anodd cael mynediad ati am resymau tebyg.

## Bydd y dull y cyhoeddir gwybodaeth o dan y cynllun hwn ar gael.

Mae'r wybodaeth a gwmpesir gan y cynllun hwn ar gael yn Atodiad 1 ac mae hyn yn cynnwys manylion sut y gellir ei chael.

Lle bo'n bosibl, mae'r wybodaeth ar gael ar wefan y Coleg (Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant, Caerdydd) fel arall gellir ei chael ar gais gan FOIandEIR@stdavidscollege.ac.uk.

Lle bo modd, darperir gwybodaeth yn electronig ond gellir gofyn amdani ar gopi caled. Darperir gwybodaeth yn yr iaith y mae'n cael ei chadw ynddi neu mewn iaith arall sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Lle bo'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Coleg gyfieithu unrhyw wybodaeth, bydd yn gwneud hynny.

Cydymffurfir â rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth anabledd a gwahaniaethu ac unrhyw ddeddfwriaeth arall i ddarparu gwybodaeth mewn ffurfiau neu fformatau eraill wrth ddarparu gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

## Costau y gellir eu codi am wybodaeth a gyhoeddir o dan y cynllun hwn.

Diben y cynllun hwn yw sicrhau bod y swm mwyaf posibl o wybodaeth ar gael yn rhwydd am yr anghyfleustra a'r gost leiaf i'r cyhoedd. Bydd taliadau a godir gan y Coleg am ddeunydd a gyhoeddir yn rheolaidd yn gyfiawn ac yn dryloyw ac yn cael eu cadw at y lleiafswm.

Darperir deunydd a gyhoeddir ac a geir ar wefan yn rhad ac am ddim.

Gellir codi taliadau am wybodaeth yn amodol ar drefn codi tâl a bennir ar gyfer y Senedd.

Gellir codi tâl am gostau gwirioneddol megis:

- Llungopïo

- Postio a deunydd pacio
- Y costau sy’n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweld gwybodaeth.

Gellir codi ffioedd hefyd am wybodaeth a ddarperir o dan y cynllun hwn lle maent wedi'u hawdurdodi'n gyfreithiol, maent ym mhob amgylchiad, gan gynnwys egwyddorion cyffredinol yr hawl i gael mynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, wedi'u cyfiawnhau ac yn unol ag amserlen neu amserlenni ffioedd cyhoeddedig sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

Gellir codi ffioedd hefyd am wneud setiau data (neu rannau o setiau data) sy'n weithiau hawlfraint perthnasol ar gael i'w hailddefnyddio. Bydd y ffioedd hyn yn unol â thelerau Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015, lle maent yn berthnasol, neu â rheoliadau a wnaed o dan adran 11B o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu â phwerau statudol eraill yr awdurdod cyhoeddus.

Os codir tâl, rhoddir cadarnhad o'r taliad sy'n ddyledus cyn darparu'r wybodaeth. Gellir gofyn am daliad cyn darparu'r wybodaeth.

### Rhestr ffioedd

| | |
|---|---|
| Llungopio/argraffu | 3c y tudalen a gopïwyd (un ochr)<br>2.5c y tudalen a gopïwyd (dwy ochr) |
| Postio a deunydd postio | Costau gwirioneddol yn ddibynnol ar yr eitem i’w bostio |
| Gweld gwybodaeth | Costau gwirioneddol uniongyrchol |

### Ceisiadau Ysgrifenedig

Gellir gofyn am wybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus nad yw wedi'i chyhoeddi o dan y cynllun hwn yn ysgrifenedig, pan fydd ei darpariaeth yn cael ei hystyried yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth.

Dylid danfon ceisiadau at FOIandEIR@stdavidscollege.ac.uk.

### Dogfen Ddiffiniadau ar gyfer colegau addysg bellach

Mae'r Coleg wedi mabwysiadu dogfen Diffiniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar gyfer Colegau Addysg Bellach. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan yr ICO a gellir ei gweld yn:

Dogfen Ddiffiniadau

Mae'r Ddogfen Ddiffiniad yn rhoi canllawiau pellach ar y dosbarthiadau o wybodaeth y dylai colegau eu darparu'n rheolaidd a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Cynllun Cyhoeddi hwn.